

BRYNACH, sant (fl. diwedd y 5ed ganrif a dechrau'r 6ed).

Enw: Brynach

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: sant

Maes gweithgaredd: Crefydd

Awdur: Hywel David Emanuel

Prif ffynhonnell y traddodiad am Frynach yw 'buchedd' a gyfansoddwyd yn ôl pob tebyg yn y 12fed ganrif ac a ddiogelir yn llawysgrif Cotton Vesp. A. xiv yn yr Amgueddfa Brydeinig.

Dengys y cyfeith o fanylion lleol a geir yn y 'fuchedd' mai brodor o Gemaes yng ngogledd Penfro, bron y tu hwnt i amheuaeth, oedd yr awdur. Nid yw'r 'fuchedd' yn dweud dim am hanes blaenorol teulu Brynach, ond edwyn traddodiad Cymreig ef fel Brynach Wyddel. Wedi pererindod i Rufain ac aros rhai blynnyddoedd yn Llydaw, glaniodd Brynach ar lannau Aberdaugleddau yn neheubarth Penfro. Symudodd oddi yno i lecyn ar afon Gwaun, ac wedi hymyn ymlaen i lannau afon Nanhyfer. Gwnaeth ei breswylfa derfynol yn y fan lle saif heddlu bentref Nanhyfer ar lannau afon Caman sydd yn llifo i afon Nanhyfer. Arglwydd y rhan honno o'r wlad oedd Clechre, ond trosglwyddodd ef ran o'i diriogaeth i Frynach, ac yno y bu i'r sant fyw bywyd o feudwyaeth lem. Yn y rhan yma o ogledd sir Benfro y ceir y mwyaf o'r mynachlogydd a sefydlwyd gan Frynach, ac y mae croes i'w gweld ym mynwcent Nanhyfer a adnabyddir hyd heddiw (ond heb reswm digonol, hyd y gwyddys) fel Croes Fyrnach.

Dethlir gŵyl y sant hwn ar 7 Ebrill.

Awdur

Hywel David Emanuel, (1921 - 1970)

Ffynonellau

Baring-Gould a John Fisher, *The Lives of the British Saints: the saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britain*, 321-7

Wade-Evans; *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae* (Caerdydd 1944), 2-15

Antiquity, 1945, 182-4

An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire. VII-County of Pembroke (1925), 263

Nash-Williams, *The Early Christian Monuments of Wales* (Caerdydd 1950), 197-200

O'Hanlon, *Lives of the Irish saints, with special festivals, and the commemorations of holy persons, compiled from calendars, martyrologies, and various sources relating to the ancient Church history of Ireland* (1875), iv, 75-6

Darllen Pellach

J. Young Evans, *Buchedd Frynach a'i arwyain* (Pembroke County Guardian 1911)

Erthygl Wicipedia: [Brynach](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q2381536](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Noddfa
Llyfrgell
Cymru
Welsh Government